BOYS 2

Helpu Bechgyn a Dynion Ifanc i Feithrin Perthynas Rywiol Iach



Prif Ganfyddiadau

Trwy gydol oes y gwasanaeth Seraf dim ond 9% o'r atgyfeiriadau CSE oedd ar gyfer bechgyn a dynion ifanc, gan wneud i ni ofyn 'I ble'r oedd y Bechgyn i gyd wedi mynd?'

Pam mae angen BOYS 2?

Roedd BOYS 2 yn brosiect ymchwil blwyddyn o hyd a gynhaliwyd gan Barnardo's ac a ariannwyd gan y Swyddfa Gartref. Roedd yn brosiect cenedlaethol a oedd yn cael ei reoli gan Ddyfodol Gwell Cymru Barnardo's a Base Project Barnardo's yn Ne Orllewin Lloegr.

Mae Dyfodol Gwell Cymru, sy'n cael eu hadnabod yn ffurfiol fel Gwasanaethau Taith a Seraf, yn darparu ledled Cymru asesiadau a gwasanaethau ymyriadau therapiwtig mwy tymor hir i blant a phobl ifanc â hanes o ymddygiad rhywiol, gan gynnwys pobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol (CSA); pobl ifanc sy'n arddangos Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB) a phroblemus; a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael neu sy'n cael eu cam-drin trwy Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE).

Fel gwaith cefndir cyffredinol, lansiodd Barnardo's Cymru Wasanaeth CSE Seraf ym mis Hydref 2006, gwasanaeth newydd i weithio â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael neu sy'n cael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru. Ym mheilot y Fframwaith Asesu Risg o Gamfanteisio'n Rhywiol (2006/2007) canfuwyd fod 40% o ddynion ifanc yn 'risg uchel' o CSE. Trwy gydol oes y gwasanaeth Seraf dim ond 9% o'r atgyfeiriadau CSE oedd ar gyfer bechgyn a dynion ifanc, gan wneud i ni ofyn 'I ble'r oedd y Bechgyn i gyd wedi mynd?'

Roedd Barnardo's yn ymwybodol bod bechgyn a dynion ifanc yn cael eu tangynrychioli o ran canfod dioddefwyr CSE a'u hatgyfeirio i gael cymorth, a bod angen codi ymwybyddiaeth broffesiynol o fechgyn a dynion ifanc fel dioddefwyr cam-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Diben yr ymchwil oedd adeiladu ar yr arbenigedd sydd gan Barnardo's yn y maes eisoes trwy weithio gyda bechgyn a dynion ifanc sydd mewn perygl o ddioddef cam-fanteisio rhywiol trwy ddefnyddio eu lleisiau a'u profiadau i wella dulliau canfod, asesu ac ymyrraeth.

Beth wnaethom ni?

- Cafodd adolygiad llenyddiaeth ym meysydd camfanteisio rhywiol ar blant a cham-drin rhywiol eu cynnal ar wrywod ac edrychwyd ar yr hyn sy'n hysbys am ffactorau risg a bod yn agored i niwed ymhlith dioddefwyr gwrywaidd camfanteisio rhywiol a cham-drin rhywiol.
- Ymgysylltwyd â 32 o weithwyr proffesiynol mewn asiantaethau rheng flaen gan gynnwys gwaith cymdeithasol, gwasanaeth anabledd gofal plant, gwasanaethau cymorth i deuluoedd, troseddau ieuenctid, gwasanaethau seicoleg, yr ystâd ddiogeledd, a chanolfannau Diogelu CSE.
- Cafodd adolygiad o wybodaeth hanesyddol a chyfredol am ffeiliau achos ei gynnal ar gyfer y bechgyn a dynion ifanc a gymerodd ran.
- Cynhaliwyd cyfweliadau wedi'u lled strwythuro â 17 o fechgyn a dynion ifanc.
- Datblygwyd set fer o holiaduron i gael eu llenwi gan fechgyn a dynion ifanc sydd wedi'u heffeithio gan CSE.
- Safoni'r holiaduron â bechgyn a dynion ifanc o fewn addysg brif ffrwd 12 i 17 oed.
- Cydgynhyrchu llyfr gwaith fel adnodd i helpu gydag ymgysylltu, asesiadau ac ymyriadau proffesiynol â bechgyn a dynion ifanc mewn perygl o gamfanteisio rhywiol.

Cafodd adolygiad llenyddiaeth ym meysydd camfanteisio rhywiol ar blant a cham-drin rhywiol eu cynnal ar wrywod ac edrychwyd ar yr hyn sy'n hysbys am ffactorau risg a bod yn agored i niwed ymhlith dioddefwyr gwrywaidd camfanteisio rhywiol a cham-drin rhywiol.

Yr hyn a Ganfuwyd?

ADOLYGIAD LLENYDDIAETH

Mae ymchwil presennol yn y maes hwn yn dangos gogwydd amlwg tuag at enethod a menywod ifanc. Roedd gwrywod fel arfer yn cael eu gweld fel y rhai sy'n gyfrifol am gam-drin sy'n golygu nad ydym yn gwybod llawer am CSE a CSA o safbwynt bechgyn a dynion ifanc. Yn ôl y llenyddiaeth sydd ar gael ffactorau allweddol sy'n dylanwadu o ran risg a bod yn agored i niwed oedd anawsterau â hunan barch, anawsterau ag unigrwydd emosiynol ac ymdeimlad o gysylltiad ag eraill, presenoldeb camgymeriadau meddwl, diffygion mewn gwybodaeth rywiol, ac anabledd a phyliau o iselder. Hefyd canfuwyd nodweddion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gorfentrus, gweithredoedd amhriodol neu anghyfreithlon, ac anableddau dysgu a / neu Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig. Ar y llaw arall, ni welwyd llawer o dystiolaeth yn ymwneud â phroblemau empathi locws rheoli; teipoleg ac ymddygiad cyflawnwyr; a throseddolrwydd sy'n deillio o gamfanteisio rhywiol.

GRWPIAU FFOCWS PROFFESIYNOL

Roedd tri grŵp ffocws undydd yn ogystal â 17 o gyfweliadau 1 i 1 a gynhaliwyd yn help i weithwyr proffesiynol i ddatgan safbwyntiau a barn am fechgyn a dynion ifanc sydd mewn perygl o CSE. Roedd y themâu cyffredinol a ddeilliodd o'r grŵp ffocws yn cynnwys.

- **Tybiaethau:** Tybiaethau bod y term cam-drin yn cyfeirio at wrywod mewn ffordd gorfforol yn hytrach na rhywiol, gyda cham-fanteisio rhywiol yn cael ei gysylltu â benywod gwyn yn eu harddegau yn hytrach na dynion, sy'n dylanwadu ar y tybiaethau rhyweddol bod benywod yn cael eu cam-drin ac mai gwrywod sy'n gyfrifol am y cam-drin.
- **Adnabod ac ymgysylltu:** Roedd tybiaeth bod CSE yn anodd i'w adnabod ymhlith bechgyn a dynion ifanc. Roedd gweithwyr proffesiynol yn teimlo ei bod yn cymryd mwy o amser i feithrin perthynas â gwrywod na benywod. Os nad yw bachgen yn ymgysylltu neu os yw'n mynd i'w gragen yna roedd teimlad bod achosion yn cael eu cau'n gyflymach. Rhoddir mwy o bwyslais ar ymddygiad troseddol neu reoli dicter ymhlith bechgyn a dynion ifanc. Mae eu hymddygiad eu hunain yn cael ei gweld fel blaenoriaeth, ac felly dyna'r peth mwyaf amlwg i ganolbwyntio arno.

- **Cyfyngiadau amser:** Os nad yw'r bachgen yn gweithio'n benodol â'r gweithiwr proffesiynol ar berygl CSE roedd teimlad nad oedd, oherwydd blaenoriaethau, adnoddau cyfyngedig, cynnydd mewn llwythi achos ac ati nad oedd amser i dreiddio'n ddyfnach ac ystyried CSE.
- **Nid oes gan weithwyr proffesiynol ddigon o hyder yn eu harbenigedd eu hunain:** Mae diffyg hyder i'w weld pan ddaw'n fater o 'adael y sgript' neu ymestyn y tu hwnt i'w rôl arferol. Dywedodd gweithwyr nad oes unman i droi i gael arweiniad a chymorth, eu bod yn poeni y byddai pobl yn chwerthin am eu pennau am feddwl bod bechgyn yn dioddef camdriniaeth rywiol, gan fod bechgyn yn cael eu gweld fel bodau rhywiol, cyflawnwyr, sydd eisiau rhyw, a / neu maent yn 'fechgyn awchus'. Roedd pryderon y byddent yn cael eu hystyried yn homoffobaidd. Dywedodd y gweithiwr proffesiynol 'beth os mai dim ond bod yn chwilfrydig maen nhw? Beth yw eu hawl i fod yn chwilfrydig?' Roedd ofnau y byddent yn gwneud pethau'n anghywir.

HANESION PERSONOL

Cymerodd 17 o fechgyn a dynion ifanc ran yn yr ymchwil; roedd y bechgyn rhwng 13 oed a 29 oed, gyda'r oed cyfartalog ar gyfer y bechgyn a'r dynion ifanc a gymerodd ran yn 15 oed. Roedd pob un o'r bechgyn a dynion ifanc yn disgrifio'u hunain fel Prydeinwyr Gwyn. Roedd yn hysbys bod bron i draean y rhai a gymerodd ran wedi cael diagnosis o anabledd neu anhawster dysgu, gyda thraean yn cael cymorth yn gysylltiedig ag anabledd yn seiliedig ar ymddygiad fel ADHD. Roedd chwarter y rhai a gymerodd ran yn dal i fyw â'u rhieni gyda thraean yn cael gofal gan yr Awdurdod Lleol a gweddill y bechgyn a dynion ifanc naill ai'n byw yn annibynnol (26%), yn y Systemau Cyfiawnder Troseddol (7%) neu wedi eu lleoli yn yr ystâd ddiogeledd (14%).

Hanes Trawma



Llesiant Emosiynol



O'r rhai a gymerodd ran, roedd 43% wedi bod neu roeddent ar y pryd yn destun Cofres triad Amddiffyn Plant. Ar adeg yr ymchwil, roedd 56% o'r bechgyn yn cael cymorth gwaith cymdeithasol. Roedd nifer sylweddol o'r cyfranogwyr (63%) naill ai ddim yn derbyn neu'n wfftio'r pryderon oedd gan weithwyr proffesiynol am CSE pan dynnwyd eu sylw at hyn y tro cyntaf.

Problemau Ymddygiadol



CYFWELIADAU LLED-STRWYTHUROL Â BECHGYN A DYNION IFANC

Cynhaliwyd cyfweliadau i edrych ar lwybrau risg, cam-drin, camfanteisio, a'r siwrnai at wasanaethau, er mwyn canfod unrhyw bwyntiau ymgysylltu ac ymyrraeth allweddol. Cynhaliwyd dau gyfweliad ar bymtheg. Y dadansoddiad a wnaethpwyd oedd dadansoddiad thematig (TA) a daeth pedair prif thema i'r amlwg.



THEMA 1 AMGYLCHEDD TEULUOL

Roedd y thema hon yn ymdrin â sut yr oedd y bechgyn a dynion ifanc yn siarad am eu profiadau o'u hamgylchedd teuluol. Tair is-thema a ddaeth i'r amlwg oedd rhieni, natur y berthynas a threfniadau byw.

- **Rhieni:** Bu cyfranogwyr yn myfyrio ar y ffaith nad oedd eu rhieni wedi dysgu sgiliau byw sylfaenol iddynt. Yn yr un modd, mae'r cymhlethdod sydd ynghlwm wrth brofi neu fod yn dyst i gamdriniaeth gorfforol yn y cartref hefyd yn cadarnhau'r awgrym bod camweithredu cynnar andwyol yn gallu effeithio ar ddatblygiad.
- **Natur y berthynas:** Roedd problemau cymhleth rhieni'n cael eu profi pan oedd y cyfranogwyr yn tyfu ac roeddent hwythau hefyd yn profi problemau'r un mor gymhleth yn gysylltiedig â thyfu a oedd yn cynnwys hunan barch, rhywioldeb ac integreiddio cymdeithasol a dilysu. Yn allweddol, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn dangos dealltwriaeth dda o'r diffyg ymlyniad roeddent yn ei brofi. Dywedodd nifer nad oeddent yn gallu mynegi eu hunain yn agored i'w teulu o ran eu rhywioldeb. Roedd un cyfranogwr yn benodol yn ceisio cael cyngor ar rywioldeb y dylai ei gael gan riant trwy gyfryngau cymdeithasol.

Trefniadau Byw: Roedd y rhain yn amrywio'n fawr o'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel y teulu cnewyllol traddodiadol, i unigolion a oedd i mewn ac allan o systemau maeth. Cafodd byw â pherthnasau fel, fel neiniau a theidiau ei grybwyll gan nifer fach o gyfranogwyr ond ar y cyfan, roedd y trefniadau byw yn rhai y gellid eu disgrifio fel ansefydlog gyda math o gamdriniaeth yma ac acw. Cafodd tai a rennir a hosteli eu crybwyll hefyd, a oedd ar y dechrau'n cael eu gweld fel mannau diogel nes iddynt gael eu hamlygu i gamfanteisio, cam-drin sylweddau a throseddolrwydd. Soniwyd am drefniadau byw hefyd yn nhermau angen.

THEMA 2 YSGOL

Roedd y thema hon yn ymwneud â'r ffordd roedd bechgyn a dynion ifanc yn sôn am eu profiadau yn yr ysgol. Nodwyd tair is-thema, sef addysg rhyw, cymorth bugeiliol a gwaharddiadau.

Addysg Rhyw: Roedd y canfyddiad o addysg rhyw dda yn eithriad yn hytrach na'r arferol gyda phob cyfranogwr ond un yn dweud nad oeddent wedi cael addysg rhyw gofiadwy, nac addysg am berthnasoedd. Aeth yr ymchwil ymlaen i ganfod o ble roeddent yn cael gwybodaeth am ryw a pherthnasoedd, yn y boblogaeth hon, os nad yn yr ysgol. Roedd y cyfranogwyr yn perthyn i ddau gategori eang: pobl a rhithwir. Pan soniwyd am rieni, byddai angen edrych yn fanylach ar y rhyngweithio hwnnw i ganfod a oedd yr ateb 'rhieni' wedi'i roi gan mai dyna lle'r oedd yr unigolyn yn teimlo y dylai allu cael cyngor ynteu a oedd yn ffynhonnell wirioneddol. Roedd ffynonellau gwybodaeth rhithwir yn amrywio ac fel yr awgryma'r enw nid oeddent yn rhyngweithiol ac nid oeddent yn golygu siarad â pherson arall. Cafodd y rhyngrwyd yn gyffredinol a safleoedd pornograffig yn fwy penodol eu hawgrymu fel y prif ffynonellau rhithwir, ynghyd â sawl math o ddiwylliant poblogaidd arall.

Cymorth Bugeiliol: Dywedodd cyfranogwyr fod anawsterau yn yr ysgol yn dueddol o ddechrau ar ôl iddynt benderfynu dod allan yn hoyw a bod hyn yn amrywio'n ôl oedran, roedd yr ieuengaf ym Mlwyddyn 8. Yn hytrach na disgrifio cymorth bugeiliol yn yr ysgol, soniodd unigolion am gael eu hatgyfeirio ... gan yr ysgol. Disgrifiwyd y cyflwyniad neu'r cyfarfod cyntaf mewn gwahanol ffyrdd ond ar y cyfan dywedwyd nad oeddent eisiau siarad â neb. Roedd y rhesymau dros beidio bod eisiau siarad â neb yn gysylltiedig â hunan barch isel a'r farn bod y dyfodol yn anobeithiol.

Gwaharddiadau: Yn anochel i rai cyfranogwyr, roedd cael eu gwahardd yn rhan o'r profiad o fod yn yr ysgol, gyda chefndir o deulu nad oedd yn gweithredu ac o dyfu. Dylid pwysleisio bod gwaharddiadau'n gallu bod yn ffactor risg arall o ran bod yn agored i gamfanteisio rhywiol.

THEMA 3 – PONTIO

Roedd y thema hon yn ymwneud â'r ffordd yr oedd bechgyn ifanc a dynion yn siarad am gyfnodau pontio yn eu bywydau. Is-themâu a ddaeth i'r amlwg oedd ffrindiau / cyfoedion a gweithiwr cymorth.

Ffrindiau / Cyfoedion: Siaradwyd am ffrindiau yn nhermau rhywbeth cyfarwydd a sefydlog mewn amgylchedd teuluol a byw a oedd fel arall yn un digon afreolus. Roedd eraill yn siarad am ffrindiau mewn ffordd llai parhaol a hefyd o ran gwahaniaethau. Trwy gydol y trafodaethau ar brofiadau o ffrindiau, roedd unigrwydd emosiynol yn amlwg, yn enwedig yn ystod cyfnodau pontio'r unigolyn, cyfnod a oedd i lawer o unigolion yn gysylltiedig â threfniadau byw neu â mynegi eu hunain o ran eu hoffterau rhywiol. Soniwyd am y cyfnod pontio hwn fel cyfnod o newid mawr, ac wrth edrych yn ôl roedd y rhai hynny a oedd yn cymysgu â'r bobl anghywir yn barod i gydnabod nad oedd yr unigolion hyn wedi bod yn help iddynt. O gymdeithasu â'r bobl anghywir, roedd y disgrifiadau'n dwysau, ac o ganlyniad cafodd rhwydweithiau cymdeithasol newydd a oedd yn deillio o gysylltiadau yn yr ysgol neu trwy drefniadau byw dros dro eu disgrifio fel rhai a oedd yn cynnwys lefelau sylweddol o weithgarwch troseddol neu gamfanteisio rhywiol yn ogystal â chymysgu ag unigolion anniogel. Yn arwyddocaol, roedd y cyfuniad o chwilio am ymlyniad ystyrlon, canfod hunaniaeth a chael dilysrwydd cymdeithasol

gan eu ffrindiau, yn golygu bod y rhwydweithiau cymdeithasol newydd hyn o ffrindiau'n cynnwys cysylltiadau â gweithredwyr CSE.

Gweithiwr Cymorth: Er bod y ffordd yr ymgysylltwyd ag unigolyn yn bersonol iawn, roedd y broses o ymgysylltu gan weithwyr Barnardo's yn cael ei weld fel esiampl o'r ffordd gywir i gysylltu â dynion ifanc, heb fod yn feirniadol a'u gweld fel unigolyn yn hytrach na'r pryderon a godwyd neu eu hymddygiad eu hunain.

THEMA 4 – DANGOSYDDION RISG AC YMYRIADAU

Roedd y thema hon yn ymwneud â sut yr oedd bechgyn ifanc a dynion yn siarad am ddangosyddion risg a pherygl o niwed o CSE. Roedd is-themâu a nodwyd yn cynnwys risgiau personol a pherygl o niwed a chyngor i eraill.

Risgiau personol a pheryglon: Soniwyd am ddigartrefedd o ganlyniad i rieni 'yn taflu eu plentyn allan o gartref y teulu'. Yn achos cyfranogwyr hŷn, roedd cyffuriau, arian ac ymddygiad partio wedi bod yn ddangosyddion amlwg iddynt hwy'n bersonol. Yn ychwanegol at y dangosyddion gweledol, roedd methiant i gyfathrebu rhwng athro a disgybl. Arwydd arall bod rhywun yn dioddef camfanteisio rhywiol yw bod cariad yn cael ei grybwyll, ond byth yn cael ei weld. Roedd dangosyddion risg eraill yn cynnwys ymddygiad ymosodol heb fawr ddim dealltwriaeth pam y gallai ymddygiad o'r fath fodoli. Soniwyd fod grwpiau penodol o fechgyn ifanc mewn perygl o gamfanteisio rhywiol, ac roedd y rhain yn cynnwys bod yn ifanc a hoyw a hefyd rhai sydd, neu wedi bod, yn y system gofal.

Cyngor i eraill: Argymhellwyd y dylid siarad ag oedolyn am unrhyw brofiad. Yn ddiddorol, nid oedd yr unigolyn hwn o reidrwydd yn rhiant, fel y gwelwyd gan y defnydd o'r gair 'gofalgar' ond ei fod yn cael ei adael yn agored yn fwriadol i ystyried cymaint o amgylchiadau gwahanol yr oedd bechgyn ifanc a dynion yn cael eu hunain ynddynt a'r oedolion yr oeddent yn teimlo y gallant droi atynt.

Yn y diwedd, daeth cyngor trwy brofiad personol a myfyrio a'r hyn a ddaeth i'r amlwg oedd bod yr unigolion hynny a oedd wedi cael help a chefnogaeth gan Barnardo's, o'r diwedd wedi cael eu galluogi trwy'r adnoddau nid yn unig i dyfu ond hefyd i gael yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth am bwy ydynt fel unigolion, ac i fagu hunan barch, hunan hyder a systemau cred.

Canlyniadau Holiaduron

Rhoddwyd saith mesur i fechgyn a dynion ifanc. Roedd y mesurau hyn yn asesu'r meysydd canlynol, unigrwydd, hunan barch, hunan-effeithiolrwydd, locws rheoli, mesurau empathi gwybyddol ac emosiynol, gwybodaeth rywiol ac arddull ymlyniad cyffredinol. Cafodd yr holiaduron hyn eu llenwi hefyd gan sampl o 34 o bobl ifanc rhwng 12 a 18 oed lle nad oedd dim pryderon ynglŷn â CSE yn hysbys.

O'u cymharu â'r grŵp rheolydd, roedd, bechgyn a dynion ifanc yn:

- Llawer mwy unig yn emosiynol ($p < .001$).
- Llawer mwy unig yn gymdeithasol ($p < .001$).
- Dangos llawer llai o broblemau o ran delio ag emosiynau negyddol ($p < .001$).

Fel yn achos y mesurau eraill, er nad oeddent yn arwyddocaol, roedd ymatebion y bechgyn a dynion ifanc a oedd wedi cymryd rhan yn yr holiaduron, o'i gymharu â'r sampl rheolydd yn dangos:

- Lefelau ychydig yn is o hunan-effeithiolrwydd.
- Locws rheoli ychydig yn fwy allanol.
- Ychydig yn fwy o bryder empathig am eraill.

ARDDULL YMLYNIAD YN Y DDAU GRŴP

Arddull ymlyniad	Boys 2	Rheolydd
Sicr	33%	76%
Synfyfyriol	7%	-
Diystyriol	7%	20%
Ofnus	53%	4%

Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod bechgyn a dynion ifanc sydd wedi'u heffeithio gan CSE yn llawer llai tebygol o fod ag arddull ymlyniad sicr na'r grŵp rheolydd. Mae'n werth nodi bod gan dros hanner y rhai a oedd wedi'u heffeithio gan CSE arddull ymlyniad ofnus lle gall, fel y nodwyd, yr ofn o gael eu gwrthod ac osgoi agosatrwydd wneud iddynt chwilio am ryw mewn ffordd amhersonol, ac unwaith eto mae'r canlyniad hwn yn arwyddocaol. ($p < .0001$).

BETH MAE HYN YN EI OLYGU I YMARFER?

- Mae angen rhagor o ymchwil i CSA a CSE ymhlith gwrywod.
- Sampl mwy o ran maint o fechgyn a dynion ifanc a grŵp rheolydd i gwblhau holiaduron i gynyddu dealltwriaeth o ffactorau dynamig.
- Ymchwil a chanllawiau ymarfer i ddeall yn well anabledd fel newidyn mewn risg a pherygl o CSE.
- Hyfforddiant proffesiynol ynglŷn â rhywedd fel newidyn mewn CSA a CSE i helpu i leihau rhwystrau a thybiaethau yn y maes hwn.
- Dulliau perthynol i gael eu defnyddio i ymgysylltu â bechgyn a dynion ifanc lle mae dangosyddion CSE yn bresennol.
- Adnoddau sydd wedi'u cynllunio i weithio ar draws meysydd ymyriadau wedi'u targedu gyda bechgyn a dynion ifanc, i gynnwys adfer perthnasoedd pan yn briodol.
- Ystyried dulliau ysgol gyfan ar gyfer addysg rhywioldeb a pherthnasoedd.
- Dulliau amlasiantaethol i gael eu defnyddio i herio ein hymarfer ein hunain ac ymarfer pobl eraill.
- Ystyried camfanteisio'n rhywiol ar blant lle mae pryderon ynghylch CSE a i'r gwrthwyneb.
- Ystyried y perygl o ddioddef CSE pan fydd pryderon ynghylch Ymddygiad Rhywiol Niweidiol.

> "Mwya sydyn am nad oedd gen i ddim rheolaeth dros bwy oedd yn byw yno roedd pawb o fy nghwmpas yn smocio crac, roedd un boi fatha pimp, roedd o'n ffrind i'r jyncis ac roedd pethau felly'n mynd ymlaen a phobl wedi dianc o'r jêl a jest yn gneud pob math o betha gwallgo..."

> "...achos dyna lle rydach chi'n mynd i gael mwya o help... mi oedd o'n rwla lle gallwn i siarad am sut ro'n i'n teimlo, am fy rhwystredigaethau a... mae o jest yn lle saff i fynd a phan o'n i'n teimlo'n isel roedd o'n rwbath i edrych ymlaen ato fo'r wythnos wedyn..."

> "yr unig beth oeddwn i isho oedd mynd yn ôl adra at fy ffrindiau a'r ysgol, a ballu..."

> "Doeddwn i ddim yn teimlo mod i'n cael dim help gan fy rhieni ar yr adeg yma ac roedd dad wedi ffeindio gwraig newydd ac roedd o yno a doedd o ddim isho dim i'w wneud â fi..."

> "Mi wnes i ffeindio criw o ffrindiau wnaeth weld be oedd yn digwydd a mi ddeudon nhw 'ffwcio'r boi na sy'n hongian o gwmpas efo ni' a dyna sut wnes i lwyddo i ddianc oddi wrtho fo..."

> "Siaradwch ag oedolion rydych yn i nabod, sy'n malio amdanoch chi."

“Doeddwn i ddim yn teimlo bod gen i lawer o ddyfodol felly mae o fatha llosgi dau ben y gannwyll, os ydach chi’n dallt be dwi’n feddwl.”

“Roedd y dysgu’n dda, ro’n i’n mwynhau astudio ... mi o’n i’n cael fy mwlio lot. Ych a fi, arhoswch i fi feddwl, o tua saith oed tan i mi adael ysgol felly mi oedd hynny tua naw mlynedd o ddioda pethau’n cael eu deud amdanaf fi bob dydd...”

“...mae’n rhyfedd tydi, bod fy ffrindiau isho mynd i wersi.”

“mae perthynas wael â fy rhieni’n sicr yn un o’r pethau hynny – mae’n gallu gwneud i chi deimlo – ac yn bendant os nad oes gennych chi ffordd o fynegi fel fi a gall hynny wneud i chi deimlo’n ofnadwy o unig. Tan i mi ddod o hyd i ffordd o fynegi fy hun roeddwn i yn ofnadwy o unig am wn i, tan oeddwn i tua un deg pedwar neu un deg pump oed mi ydach chi’n teimlo nad oes ganddoch chi neb.”

“Mae pobl yn stopio gwrando ar bobl eraill a hefyd mae’n anodd cael rhai yn eu harddegau i wrando, ond doeddwn i ddim isho gwrando ar neb na dim am fy mod yn teimlo eu bod nhw’n trio fy rhoi mewn lle nad o’n i isho bod, a lle ro’n i’n trio dod ohono fo...”

“Doeddwn i ddim isho siarad efo neb.”

“Dwi’n meddwl bod yn well iddyn nhw aros yn blentyn a pheidio trio bod yn oedolyn. Mae’n ymddangos bod cymdeithas yn eu gwthio i neud hyn ac i neud y a llall. Maen nhw’n tyfu’n rhy gyflym ... Doed dim yn rhaid iddyn nhw ruthro”

Believe in children

Barnardo's

Home Office

© Hawlfraint Cynnwys

Mae'r hawlfraint ar y ddogfen hon yn cael ei chadw gan Barnardo's. Gellir copio dyfyniadau er mwyn llunio neu gynnal cyrsiau hyfforddi, ar yr amod bod y deunydd gwreiddiol yn cael ei gydnabod yn ffurfiol.

Gellir copïo neu gynnwys dyfyniadau cyflawn neu ar raddfa fawr mewn unrhyw fformat, gan gynnwys fformatau electronig a gweledol, ar ôl cael caniatâd ysgrifenedig yn unig.

Cynhyrchwyd gan Barnardo's, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG a Caffeine Creative Ltd, The Lab, 5 Stangate House, Penarth, CF64 2AA

Gellir cael rhagor o gopïau yma: Gwasanaeth Dyfodol Gwell Barnardo's, Davian House, Stad Ddiwydiannol Village Farm, Y Pîl, Pen-y-bont ar Ogwr CF33 6BJ - Elusen yw Barnardo's (216250 a SC037605)